Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - 9fed enillydd

# Clwb Criced Porth

Mae Clwb Criced Porth wedi mwynhau blwyddyn lwyddiannus yn dilyn cynnydd enfawr yn ei aelodaeth. Mae criw o wirfoddolwyr wedi gweithio'n ddiflino i ddatblygu'r clwb a chyflwyno adrannau iau ac adran i fenywod. Lansiodd y clwb ddwy raglen Criced Cymru (All Stars a Dynamos) y mis Mai. Roedd hyn wedi helpu'r clwb wrth ymgysylltu â phlant rhwng 5 ac 11 oed. Roedd dros 50 o blant wedi mwynhau'r sesiynau, ac maen nhw'n cynnal sesiynau dan dro yn ystod y gaeaf. Sefydlodd y clwb dîm pêl-feddal i fenywod ym mis Awst. Mae tua 16 o fenywod wedi cofrestru ac mae'r tîm wedi chwarae'i gêm gyfeillgar gyntaf yn ddiweddar.




Yn ogystal â'r holl lwyddiant uchod, mae'r tîm cyntaf wedi cael dyrchafiad i gynghrair Criced De Ddwyrain Cymru.